# Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd

# Amodau'r cylch gorchwyl

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Blwch SP 99
Pencadlys yr Heddlu
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF
Rhif ffôn: 01267 226 440
E-bost: opcc@dyfed-powys.police.uk
Gwefan: http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rheswm dros y newid |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Mawrth 2016 | Hannah Hyde | |
| 2.0 | Awst 2019 | Caryl Bond | Diweddarwyd y llawlyfr i gynnwys rhagor o wybodaeth am y cynllun. |
| 2.1 | Medi 2020 | Caryl Bond | Adolygiad blynyddol |
| 2.2 | Tachwedd 2021 | Caryl Bond | Ychwanegwyd gwybodaeth bellach am y drefn gwyno a'r gallu i weithredu fel oedolyn priodol. |
| 2.3 | Chwefror 2022 | Caryl Bond | Ychwanegwyd adolygiad o gofnodion y ddalfa. |
| 3.0 | Mehefin 2024 | Ellen Jones | Adolygiad llawn |
| 3.1 | Medi 2024 | Tom Walters | Dolen ddiwygiedig i'r polisi gwirfoddolwyr sy'n cyfeirio at ddiweddariadau i safonau a chymorth llesiant. |

## Cynnwys


1. Polisi Gwirfoddolwyr ..... 3
2. Llawlyfr ar gyfer y Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd ..... 3
3. Cyflwyniad i'r Cynllun Ymweliadau Annibynnol â'r Ddalfa ..... 3
4. Rheoli'r cynllun ..... 4
5. Cymhwysedd ..... 4
6. Recriwtio a hyfforddiant ..... 4
9. Terfynu'r penodiad ..... 5
10. Setlo gwahaniaethau ..... 6
11. Trefniadau ymweld ..... 7
12. Paneli Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a chadeirydd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ..... 8
13. Gweithdrefnau ymweliadau â dalfeydd ..... 10
14. Didueddrwydd a chyfrinachedd ..... 20
15. Ffurflenni adrodd ymwelwyr a chamau gweithredu dilynol ..... 22
16. Monitro'r cynllun ..... 22
17. Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ..... 22

Atodiad A ..... 23
Atodiad B ..... 24
Atodiad D ..... 27
Atodiad E: ..... 30
Atodiad F ..... 31

## 1. Polisi Gwirfoddolwyr

Mae'r Polisi Gwirfoddolwyr yn bolisi trosfwaol sy'n ymdrin ag egwyddorion cyffredinol gwirfoddoli i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh). Bydd pob gwirfoddolwr yn cael copi o'r polisi. Mae hefyd ar gael ar wefan y CHTh neu ar gais i swyddfa'r Comisiynydd.

Mae'r polisi yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr agweddau canlynol ar wirfoddoli:

- Rheoli'r cynlluniau
- Cymhwysedd
- Recriwtio a cheisiadau
- Fetio
- Hyfforddiant
- Cyfnod prawf ac adolygiadau
- Rolau, cyfrifoldebau a safonau gwirfoddolwyr
- Treuliau
- Yswiriant
- Iechyd a diogelwch
- Cyfrinachedd
- Gwaredu dogfennaeth
- Canllawiau cyhoeddusrwydd
- Llesiant a chefnogaeth
- Setlo gwahaniaethau
- Terfynu'r penodiad
- Cwynion yn erbyn yr heddlu
- Gwrth-hiliaeth

## 2. Llawlyfr ar gyfer y Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd

Mae'r llawlyfr hwn yn rhoi arweiniad manwl ar y trefniadau ymweld â dalfeydd o fewn Dyfed-Powys.

## 3. Cyflwyniad i'r Cynllun Ymweliadau Annibynnol â'r Ddalfa

Argymhellodd Adroddiad yr Arglwydd Scarman ar derfysgoedd Brixton ym 1981 system o archwiliadau annibynnol a dirybudd o weithdrefnau a chadw mewn gorsafoedd heddlu gan aelodau'r gymuned leol. Y prif reswm oedd atal diffyg ymddiriedaeth cynyddol yn yr heddlu a chynyddu eu hatebolrwydd i'r cyhoedd.

Mae adran 51 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (fel y'i diwygiwyd), yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wneud trefniadau i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ymweld ag unigolion a gedwir yn y ddalfa. Cefnogir y Ddeddf gan Godau Ymarfer a Safonau Cenedlaethol a ddatblygwyd ar y cyd gan y Swyddfa Gartref a Chymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd.

Pwrpas y trefniadau ymweld hyn yw galluogi aelodau o'r gymuned leol i arsylwi, gwneud sylwadau ac adrodd ar yr amodau y mae pobl yn cael eu cadw o danynt mewn gorsafoedd heddlu. Mae'r trefniadau hyn hefyd yn darparu gwiriad annibynnol ar y ffordd y mae staff y ddalfa yn cyflawni eu dyletswyddau mewn

perthynas â phobl a gedwir yn y ddalfa, gyda'r nod o gynyddu hyder y cyhoedd yn y materion hyn.

## 4. Rheoli'r cynllun

Mae'r cynllun yn cael ei gydlynu gan dîm Sicrwydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a rheolwyr y cynllun yw'r pwynt cyswllt ar gyfer gwirfoddolwyr. Bydd gwirfoddolwyr yn cael gwybod manylion cyswllt uniongyrchol wrth ymuno â'r cynllun a byddant yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau.

## 5. Cymhwysedd

Manylir ar y meini prawf cymhwysedd i ddod yn Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa ym manyleb y rôl yn Atodiad A. Bydd pob cais yn cael ei drin yn ôl ei rinweddau, ond y prif ffactor fydd atal gwrthdaro buddiannau posibl i unigolion a chynnal annibyniaeth ac uniondeb y cynllun yn ei gyfanrwydd.

## 6. Recriwtio a hyfforddiant

Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn recriwtio Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa drwy wahodd ceisiadau gan y cyhoedd. Bydd y Comisiynydd yn ceisio recriwtio Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa o bob rhan o'r gymuned leol i geisio adlewyrchu ei hamrywiaeth mewn perthynas â rhyw, oedran, ethnigrwydd a chefndiroedd gwahanol.

Gwahoddir pob Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa i fynychu cwrs hyfforddiant sefydlu undydd cychwynnol, a drefnir gan swyddfa'r CHTh. Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan swyddfa'r CHTh, Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, a staff dalfeydd Heddlu Dyfed-Powys. Bydd yr hyfforddiant hwn yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sylfaenol i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa i gynnal ymweliadau. Ni fydd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn gallu cychwyn ar eu dyletswyddau gwirfoddoli nes eu bod wedi mynychu diwrnod hyfforddi.

Disgwylir hefyd i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa fynychu o leiaf dau ymweliad dalfa yng nghwmni Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa profiadol cyn ymgymryd â'u dyletswyddau.

I gefnogi'r hyfforddiant cychwynnol, ac i sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth yn cael eu hadnewyddu'n rheolaidd, gofynnir i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa fynychu diwrnodau hyfforddi blynyddol trwy gydol cyfnod eu penodiad. Cynhelir diwrnodau hyfforddi blynyddol ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys yng Nghaerfyrddin.

Cynigir cyfleoedd hefyd i dderbyn hyfforddiant allanol, er nad yw presenoldeb mewn digwyddiadau o'r fath yn orfodol.

## 7. Penodiad

Ar ôl cael ei benodi, bydd yr Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa yn llofnodi cytundeb Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (Atodiad D); mae hwn yn nodi'r Cod Ymddygiad a'r hyn a ddisgwylir ganddynt yn ystod tymor eu penodiad. Bydd pob Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa yn cael cerdyn adnabod yn dangos llun y deiliad. Bydd y cerdyn adnabod yn galluogi'r Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa i ymweld â dalfeydd yn unol â'r rotâu a drefnwyd gan reolwyr y cynllun.
Dim ond gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Comisiynydd y bydd ymweliadau â dalfeydd y tu allan i ardal y panel y mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wedi'u neilltuo iddynt yn digwydd. Dim ond ar gyfer ymweliadau â dalfeydd y dylid defnyddio cardiau adnabod Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Os canfyddir bod unrhyw un yn defnyddio eu cerdyn adnabod at unrhyw ddiben arall, bydd yn cael ei dynnu'n ôl a bydd penodiad yr Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa yn cael ei derfynu.

Bydd yn ofynnol i unrhyw Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa sydd newydd eu penodi gwblhau cyfnod prawf o chwe mis yn foddhaol. Unwaith y bydd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wedi cwblhau eu cyfnod prawf yn llwyddiannus, cânt eu cadarnhau am dymor cychwynnol o dair blynedd. Cynhelir adolygiadau bob tair blynedd fel y nodir yn ein Polisi Gwirfoddolwyr.

Gofynnwn yn garedig i bob Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa geisio ymrwymo i o leiaf blwyddyn ar y cynllun oherwydd bod angen cliriad fetio a hyfforddiant ar bob Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa.

## 8. Treuliau

Mae'r gwaith yn gwbl wirfoddol, ond bydd costau teithio'n daladwy i bob Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa os yw'r rhain yn codi at ddibenion penodol y cynllun. I gael rhagor o wybodaeth am dreuliau gweler ein Polisi Gwirfoddolwyr.

## 9. Terfynu'r penodiad

Dylai ymwelwyr sy'n dymuno terfynu eu penodiad gyflwyno hyn yn ysgrifenedig i reolwyr y cynllun gan roi digon o rybudd i addasu rotâu ac i sicrhau na chaiff ymweliadau eu canslo. Lle bo modd, dylai ymwelwyr gwblhau unrhyw ymweliadau a drefnwyd ar gyfer y rota gyfredol.

Er bod y rôl yn gwbl wirfoddol, mae gan y Comisiynydd yr hawl i derfynu penodiad unrhyw Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa nad yw eu hymddygiad yn cael ei ystyried i fod o'r safon ddisgwyliedig. Bydd pob Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa yn llofnodi Cod Ymddygiad (Atodiad D) wrth ymuno â'r cynllun a bydd disgwyl iddynt gadw at y safonau a nodir yn y ddogfen honno. Os yw ymddygiad yn disgyn islaw'r safon honno, bydd y Comisiynydd yn ystyried a ddylai'r person hwnnw barhau yn y rôl.

Rhaid i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa hysbysu swyddfa'r Comisiynydd os cânt eu harestio a'u cyhuddo o drosedd neu os ydynt yn destun ymchwiliad. Byddant

yn cael eu hatal rhag ymgymryd â dyletswyddau gwirfoddoli pellach tra'n aros am ganlyniad unrhyw achos.

## 10. Setlo gwahaniaethau

Gweler ein Polisi Gwirfoddolwyr am arweiniad ychwanegol ar ein trefn gwyno a beth i'w wneud os oes gennych gŵyn i'w gwneud yn erbyn aelod o'r heddlu neu reolwyr y cynllun.

Ymdrinnir â chwynion a wneir yn erbyn Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gan unigolion a gedwir yn y ddalfa, personél yr heddlu neu eraill yn unol â gweithdrefnau cwyno'r CHTh. Os oes gan Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa bryder am ymddygiad cyd-Ymchwilydd Annibynnol nad oes modd ei ddatrys yn lleol, dylid gwneud hyn yn ysgrifenedig i reolwyr y cynllun fel y nodir yn Atodiad D.

Mae Atodiad D yn manylu ar god ymddygiad yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, sy'n cynrychioli'r safon a ddisgwylir gan bob Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa. Dyma'r sail ar gyfer eu haelodaeth barhaus o'r cynllun. Gall penodiad Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa y canfyddir ei fod yn torri'r cod gael ei derfynu, ei atal neu ei gwtogi.

Os gwneir cwyn neu honiad bod Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa wedi torri unrhyw ran o'r cod ymddygiad hwn, cymerir y camau canlynol:

- Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn gofyn i'r gŵyn/honiad gael ei wneud yn ysgrifenedig, os nad yw hynny wedi'i wneud eisoes.  Ni chymerir unrhyw gamau pellach oni bai fod y gŵyn/honiad yn cael ei wneud yn ysgrifenedig.
- Bydd y SCHTh, ar ôl derbyn y gŵyn/honiad ysgrifenedig, yn hysbysu'r Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa ei fod wedi dod i law ac o'i gynnwys. Cynhelir trafodaeth rhwng yr Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa ac aelod priodol o SCHTh i drafod natur y gŵyn.
- Yn dibynnu ar natur y gŵyn, bydd yr Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa yn cael y cyfle i ymateb i'r gŵyn/honiad naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.
- Bydd SCHTh yn gwneud yr ymholiadau perthnasol angenrheidiol i benderfynu ar sylwedd y gŵyn/honiad. Wrth wneud hynny, ac yn dibynnu ar natur y gŵyn, bydd SCHTh yn cysylltu ag unrhyw un neu bob un o'r partïon canlynol:
  - Yr achwynydd
  - Cyd-Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa
  - Swyddog(ion) heddlu
  - Unrhyw un arall sy'n gallu darparu gwybodaeth berthnasol

Ar ôl gwneud yr ymholiadau angenrheidiol, bydd SCHTh yn paratoi adroddiad, gydag argymhellion, a fydd yn cael eu hystyried/cadarnhau gan Brif Weithredwr

SCHTh a chadeirydd y panel priodol. Bydd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad.

## 11. Trefniadau ymweld

### 11.1 Nifer yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Bydd nifer digonol o Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn cael eu penodi i sicrhau y gellir gwneud y nifer priodol o ymweliadau dirybudd â phob dalfa.

### 11.2 Ymweld mewn parau

Rhaid i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ymweld mewn parau. Ni fydd unrhyw Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa sy'n mynd i orsaf heddlu ar ei ben ei hun yn cael mynediad. Caiff y paru ei gylchdroi fel bod Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, cyn belled ag y bo modd, yn cynnal ymweliadau â gwahanol Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn ystod pob cyfnod rota. Ni ddylai mwy na dau Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa ymweld gyda'i gilydd, ac ni ddylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ddod gydag unrhyw bersonau anawdurdodedig, dim ond Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa achrededig eraill.

### 11.3 Amlder ac amseriad ymweliadau – rotâu

Disgwylir i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wneud o leiaf dau ymweliad y mis. Bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar yr ardal y maent yn ei chwmpasu gan nad oes angen ymweliad bob wythnos ar rai dalfeydd, tra bod angen ar ddalfeydd mwy a phrysurach.

Bydd amlder ymweliadau yn cael ei bennu gan y CHTh, ond rhoddir ystyriaeth i farn Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a Heddlu Dyfed-Powys. Bydd angen cymryd gofal i sicrhau nad yw ymweliadau, er eu bod yn ddigon aml i fodloni amcanion y cynllun, yn digwydd mor aml fel eu bod yn amharu ar effeithlonrwydd gweinyddiaeth y ddalfa dan sylw, neu waith gweithredol y swyddogion.

Mater i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yw amseru ymweliadau. Fodd bynnag, dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ystyried yr angen i gynnal ymweliadau yn ystod yr wythnos, ac ar adegau gwahanol o'r dydd. Ni ddylai eu hymweliadau ddod yn rhagweladwy i staff y ddalfa.

Neilltuir cyfnodau wythnosol neu bythefnosol i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a rhaid iddynt gyflawni ymweliad yn ystod y cyfnodau hyn. Bydd 'Ymwelydd 1' yn cysylltu ag 'Ymwelydd 2' i drefnu diwrnod ac amser eu hymweliad. Rhoddir arweiniad pellach ar rotâu yn uniongyrchol i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gadw mewn cof bod eu hymweliadau yn gosod cyfrifoldeb annisgwyl ar swyddogion y ddalfa a dylent hefyd fod yn ymwybodol o oedi posibl yn ystod cyfnodau newid shifftiau swyddogion y ddalfa.

## 12. Paneli Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a chadeirydd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Mae'r cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn cynnwys pedwar Panel Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa; pob un yn cynrychioli sir o fewn Dyfed-Powys, h.y. Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Mae cyfarfod Panel Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn cynnwys pob un o'r pedwar rhanbarth ac aelodau o SCHTh. Mae cynrychiolwyr o ddalfeydd Heddlu Dyfed-Powys hefyd yn bresennol i drafod unrhyw newidiadau a diweddariadau mewn perthynas â dalfeydd ac i roi diweddariadau/adborth ar unrhyw faterion a godwyd gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa dros y cyfnod hwnnw.

Bydd cyfarfod Panel Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn cael ei gadeirio gan wirfoddolwr sydd wedi mynegi diddordeb mewn cyflawni'r rôl. Bydd yr unigolyn â'r nifer fwyaf o bleidleisiau yn dod yn gadeirydd am gyfnod o flwyddyn; fodd bynnag, mae hyd yr amser y gall person gadeirio'r cyfarfodydd yn ddiderfyn yn amodol ar etholiad blynyddol llwyddiannus. Os bydd y cadeirydd yn enwebu ei hun, rhaid i aelod arall eilio ei enwebiad ac yna bydd y cyfarfod cyfan yn pleidleisio. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd aelod o staff SCHTh yn ymgymryd â rôl cadeirydd.

Rôl y cadeirydd fydd:

- Cadeirio cyfarfodydd panel, gan sicrhau eu bod yn rhedeg ar amser.
- Sicrhau ei fod yn gyfarwydd â'r holl bryderon a thueddiadau a nodwyd gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn ystod y cyfnod cyn y cyfarfod a dod â'r rhain i sylw rheolwyr y cynllun yn adeiladol cyn cyfarfodydd.
- Craffu ar ymatebion a roddir i unrhyw ymholiadau a godwyd mewn cyfarfodydd neu o ganlyniad i faterion y manylwyd arnynt ar ffurflenni adrodd.

### 12.1 Trefniadau cludiant

Cyfrifoldeb unigol pob Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa yw gwneud eu trefniadau cludiant eu hunain ar gyfer ymweliadau. Er bod y CHTh yn cefnogi ymwelwyr i rannu cludiant lle bo hynny'n ymarferol, mae'r cyfrifoldeb ar unrhyw Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa heb fynediad i'w cerbyd eu hunain i wneud eu trefniadau eu hunain e.e. i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Ceir rhagor o wybodaeth am yswiriant trafnidiaeth yn y polisi gwirfoddoli.

### 12.2 Presenoldeb mewn gorsaf heddlu

Bydd swyddogion y ddalfa ond yn ymateb i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa sy'n bresennol yn bersonol mewn gorsaf heddlu.  Ni fyddant yn ymateb i ymholiadau ffôn.  I bwysleisio eu didueddrwydd, ni ddylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gyfuno ymweliad â dalfa ag unrhyw fusnes arall.

### 12.3 Ymweliadau ar gais yr heddlu

Er na ddylai ymweliadau fod wedi'u trefnu fel arfer, efallai y bydd achosion pan fydd tensiwn arbennig yn y gymuned leol ynghylch triniaeth neu lesiant un neu fwy o unigolion a gedwir yn y ddalfa.  Mewn amgylchiadau o'r fath, gall arolygydd/rhingyll y ddalfa wahodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa i fod yn bresennol, i dawelu unrhyw straeon a sïon. Rhaid gwneud ceisiadau o'r fath drwy swyddfa'r CHTh, a fydd yn ymdrechu i hwyluso ymweliadau mor amserol â phosibl.

### 12.4 Unigolion proffil uchel a gedwir yn y ddalfa/digwyddiadau proffil uchel

Mae arestiad proffil uchel yn denu llawer o sylw'r cyhoedd i'r heddlu ac, yn dibynnu ar yr achos, gall fod yn hynod emosiynol i'r heddlu. Mae triniaeth unigolion a gedwir yn y ddalfa o dan yr amgylchiadau hyn yn hynod bwysig, yn enwedig pan fo unigolion bregus yn y ddalfa neu mae amseroedd cadw yn cael eu hymestyn hyd at 96 awr. Mae unigolion a gedwir yn y ddalfa yn debygol o fod dan fwy o straen oherwydd natur/difrifoldeb y drosedd y maent yn destun ymchwiliad.

Os yw digwyddiad yn cynnwys arestiad proffil uchel, gall SCHTh holi i ganfod a oes/faint o Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa fyddai'n fodlon cynnal ymweliad byrfyfyr. O dan yr amgylchiadau hyn, dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa flaenoriaethu'r unigolion proffil uchel hynny a gedwir yn y ddalfa, yn enwedig plant ac oedolion bregus.

Dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gadw at y drefn ymweld arferol ond dylid rhoi mwy o ystyriaeth i gadw nodiadau cywir o drafodaethau ag unigolion a gedwir yn y ddalfa, cofnod y ddalfa (os gellir ei weld) a nodiadau cyffredinol ar naws/diwylliant y ddalfa. Gall unrhyw adborth cadarnhaol ar adegau o arestiadau proffil uchel fod yn werthfawr i staff yr heddlu, gan sicrhau, yn ogystal ag amlygu meysydd sy'n peri pryder, y rhoddir adborth ar arferion da ar adeg yr ymweliad.

Gan na all Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa drafod yr ymweliad y tu allan i'r cynllun oherwydd cyfrinachedd, dylent achub ar y cyfle i gael ôl-drafodaeth gyda'u rheolwr cynllun ar ôl i'r cyfnod yn y ddalfa ddod i ben.

### 12.4 Trefniadau gweithio effeithiol

Er mwyn i'r cynllun fod yn effeithiol, mae'n hanfodol bod Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn cynnal perthynas waith broffesiynol â swyddogion a staff yr heddlu, yn seiliedig ar barch y naill at y llall a dealltwriaeth o rolau ei gilydd.  Dim ond pan fydd cwrteisi ac ystyriaeth ar y ddwy ochr y gall perthnasoedd o'r fath fodoli.

Mae angen i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa osgoi bod yn or-gyfarwydd â staff y ddalfa a rhaid iddynt fod yn annibynnol ar yr heddlu bob amser. Os yw Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn ymddangos yn rhy gyfeillgar â staff y ddalfa, gall unigolion a gedwir yn y ddalfa gwestiynu lefel annibyniaeth Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Yn ogystal, rhaid i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa roi'r un ystyriaeth i'w cyd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Rhaid i bob Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa fod yn gefnogol i'w gyfoedion, gweithio fel tîm a chwarae rhan weithredol a chyfartal yn ystod yr ymweliadau. Sylwch fod y gwahaniaeth rhwng 'Ymwelydd 1' ac 'Ymwelydd 2' o fewn y rotâu wedi'i gynnwys dim ond er mwyn nodi pwy fydd yn arwain wrth drefnu'r ymweliad.

## 13. Gweithdrefnau ymweliadau â dalfeydd

### 13.1 Cod gwisg ar gyfer Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Mae angen i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ystyried beth i'w wisgo wrth gynnal ymweliadau, o ran sut maent yn ymddangos i unigolion a gedwir yn y ddalfa a staff y ddalfa ac hefyd o ran materion iechyd a diogelwch. Fel canllaw cyffredinol, 'smart-anffurfiol' fydd fwyaf priodol.

Cynghorir Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa i beidio â gwisgo siwtiau oherwydd gallai hyn roi'r argraff eu bod yn ffigurau awdurdod, a allai achosi unigolion a gedwir yn y ddalfa i wrthod caniatáu i'r ymweliad fynd yn ei flaen. Dylid ystyried goblygiadau iechyd a diogelwch rhai dillad ac ategolion megis teis, gemwaith, sgarffiau neu sodlau uchel.

### 13.2 Wrth gyrraedd gorsaf heddlu

Wrth gyrraedd gorsaf yr heddlu dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gyflwyno eu cardiau adnabod i'r aelod o staff / swyddog sy'n eu cyfarch, a ddylai eu derbyn i'r orsaf ar unwaith. Ni ddylai fod unrhyw reswm dros oedi ar yr adeg hon. Os bydd oedi, dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ofyn i staff y ddalfa am eglurhad a nodi hyn ar eu ffurflen adrodd.

Pan fydd gorsaf ar gau, bydd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn cysylltu â Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu gan ddefnyddio'r system seiniwr y tu allan i'r brif fynedfa, i roi gwybod i staff pwy ydynt a diben eu hymweliad â'r orsaf. Dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ofyn am gael siarad â swyddog yn y ddalfa er mwyn cael mynediad i gynnal yr ymweliad. Os nad yw hyn yn bosibl, dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa lenwi ffurflen adrodd yn nodi hyn a rhoi terfyn ar yr ymweliad.

### 13.3 Mynediad ar unwaith i'r ddalfa

Dylid Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa gael mynediad ar unwaith i’r ddalfa. Os bydd mynediad yn cael ei ohirio bydd hyn yn effeithio ar hygrededd cynllun Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa. Mae’n amhriodol gohirio mynediad oherwydd bod swyddog y ddalfa’n brysur. Dylid gohirio mynediad dim ond lle gallai Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa fod mewn perygl o’r herwydd e.e. os oes aflonyddwch yn y ddalfa ar yr adeg honno. Dylid rhoi esboniad llawn i Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa ynghylch pam mae mynediad yn cael ei ohirio. Dylid cynnwys yr esboniad hwn yn ffurflen adrodd yr Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa a’i gymeradwyo gan swyddog y ddalfa.

Mewn amgylchiadau eraill lle ceir oedi, gellir derbyn Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa i’r ddalfa a’u gwahodd i aros nes bod swyddog y ddalfa neu swyddog arall ar gael i’w hebrwng ar yr ymweliad. Os oes unigolyn yn y broses o gael eu bwcio i’r ddalfa ar yr adeg y bydd yr Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa yn cyrraedd, rhaid i swyddog y ddalfa ofyn i’r sawl sy’n cael eu cadw a yw’n cydsynio iddynt fod yn bresennol. Os na fydd y sawl sy’n cael eu cadw yn rhoi caniatâd, gall yr Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa naill ai aros neu, gyda chaniatâd swyddog y ddalfa, ymweld â rhan arall o’r ddalfa.

### 13.4 Diogelwch

Er mwyn sicrhau diogelwch Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa, rhaid i ringyll y ddalfa neu aelod o staff y ddalfa fod gyda’r Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa yn ystod ymweliadau.

### 13.5 Fideo teledu cylch cyfyng

Dylai Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa gyflawni eu swyddogaethau yn bersonol ac nid drwy wylio fideo teledu cylch cyfyng byw neu fideo wedi’i recordio. Mae eu rôl yn sylfaenol ryngweithiol gydag unigolion a gedwir yn y ddalfa a staff yr heddlu ac ni ellir ei chyflawni o bell.

### 13.6 Mynediad i bob rhan o’r ddalfa

Dylai Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa gael mynediad i bob rhan o’r ddalfa lle gellir cadw unigolion yn y ddalfa; gan gynnwys celloedd, ystafelloedd cadw, mannau cyhuddo, iardiau ymarfer corff a mannau paratoi bwyd (ac eithrio ystafelloedd cyfweld ac ystafelloedd meddygol pan fyddant yn cael eu defnyddio).

### 13.7 Ymweliadau ag unigolion a gedwir yn y ddalfa

Yn Nyfed-Powys, nid yw’n aml yn wir bod mwy o unigolion a gedwir yn y ddalfa nag y gall Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa ymweld â nhw’n ymarferol. Fodd bynnag, os bydd nifer uchel o unigolion yn y ddalfa, efallai na fydd yn ymarferol ymweld â phawb, o safbwynt yr Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa ac o ystyried y gwaith ychwanegol y mae hyn yn ei achosi i staff y ddalfa. Dylai Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa benderfynu sawl un y byddant yn ei weld yn

ystod pob ymweliad.  Mae'n bwysig dewis unigolion a gedwir yn y ddalfa yr ystyrir eu bod yn fregus.

### 13.8 Caniatâd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa i weld Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Nid oes rheidrwydd ar unigolion a gedwir yn y ddalfa i weld Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa nac i ateb eu cwestiynau.  Rhaid gofyn iddynt a ydynt yn fodlon cyfarfod â'r Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.  Gall naill ai'r swyddog sy'n hebrwng yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gadarnhau a yw'r sawl sy'n cael ei gadw yn y ddalfa yn dymuno eu gweld ai peidio, neu efallai y bydd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn dymuno gwneud hynny eu hunain.

Defnyddir ffurf safonol ar eiriad pan fydd swyddogion yn gofyn i'r unigolion a gedwir yn y ddalfa a ydynt yn dymuno cael eu gweld. Fel arfer defnyddir y fformat ganlynol:-

*Mae dau aelod o'r cyhoedd gyda fi, o'r enw Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Hoffen nhw eich holi chi am y ffordd y cawsoch eich trin yn ystod eich cyfnod yn y ddalfa a chanfod a yw eich hawliau wedi'u hesbonio i chi ac a ydych wedi cael yr hawliau hyn. Nid ydynt yn cael eu cyflogi gan yr heddlu. Eich dewis chi yw p'un a ydych chi'n eu gweld. Ydych chi eisiau eu gweld?*

SYLWER: Er bod y ffurf safonol ar eiriad yn rhan o'r cynllun, ar sawl achlysur fe'i defnyddir fel canllaw yn unig.

Ar yr amod bod Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn fodlon bod esboniad o'u rôl wedi'i roi (gyda phwyslais arbennig ar annibyniaeth yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa) derbynnir hyn fel dull resymol.

Yn amodol ar baragraffau 13.10, 13.13 a 13.14 isod, gall Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gael mynediad at unrhyw berson sy'n cael ei gadw mewn gorsaf heddlu, gan gynnwys pobl sydd wedi'u remandio yn nalfa'r heddlu o dan ddarpariaethau'r deddfau Seneddol a ganlyn:

- Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE);
- Deddf Llysoedd Ynadon 1980 – pobl sydd wedi'u remandio i ddalfa'r heddlu yn unol ag adran 128 o'r ddeddf, fel y'i diwygiwyd;
- Deddf Carcharu (Darpariaethau Dros Dro) 1980 – carcharorion ar remand ac wedi'u dedfrydu a gedwir yng nghelloedd yr heddlu o dan adran 6 o'r ddeddf;
- Deddf Mewnfudo 1971 a Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 – personau sy'n destun achos alltudio neu sy'n aros i gael eu symud o'r DU fel rhywun sydd yn y wlad yn anghyfreithlon;
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 – personau a ddelir o dan y ddeddf er eu diogelwch eu hunain; a

- Deddf Plant 1989 – plant yn cael eu cymryd i amddiffyniad yr heddlu.

**13.9 Unigolion a gedwir yn y ddalfa y mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn eu hadnabod**

Cyn mynd i mewn i'r gell, dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wneud archwiliad gweledol o'r sawl sy'n cael eu cadw drwy'r twll ysbïo neu'r agoriad i ganfod a yw'n adnabod y sawl sy'n cael ei gadw. Ni ddylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ymweld â ffrindiau neu berthnasau sydd yn y ddalfa, ac mae'n rhaid i'r ddau Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa dynnu'n ôl rhag ymweld â'r sawl sy'n cael ei gadw os yw'r naill Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa neu'r llall yn adnabod unigolyn.

Os bydd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn adnabod unigolyn a gedwir yn y ddalfa, ond nid fel ffrind personol neu aelod o'r teulu, dylent benderfynu a ddylid parhau â'r ymweliad â'r unigolyn penodol hwnnw yn y ddalfa. Rhaid cymryd gofal i sicrhau nad yw didueddrwydd yn cael ei beryglu mewn unrhyw ffordd.

**13.10 Unigolion yn y ddalfa na allant gydsynio i ymweliad**

Os yw'r sawl sy'n cael ei gadw yn y ddalfa dan ddylanwad diod neu gyffuriau i'r fath raddau fel nad yw'n gallu cydsynio neu fel arall neu am ryw reswm arall yn methu â nodi parodrwydd neu fel arall i gael ei weld; dylai'r swyddog tywys sy'n hebrwng yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, os ydyw'r ymwelwyr yn dymuno hynny, ganiatáu mynediad iddynt oni bai yr ystyrir y gallai eu diogelwch fod mewn perygl.

Os bydd y swyddog tywys o'r farn ei bod yn rhy beryglus i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa fynd i mewn i'r gell efallai y bydd am siarad â'r sawl sy'n cael ei gadw drwy'r agoriad yn nrws y gell. Os nad yw'r sawl sy'n cael ei gadw yn ymateb, dylai'r swyddog tywys ganiatáu mynediad os yw Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn dymuno sicrhau llesiant y sawl sy'n cael ei gadw. Os oes ganddynt bryderon ynghylch lles y sawl sy'n cael ei gadw, gallant ofyn am fynediad i gofnod dalfa'r sawl sy'n cael ei gadw. (Gweler 13.19 isod).

**13.11 Cyfleuster cyfieithu**

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn tanysgrifio i wasanaethau cyfieithu dros y ffôn i alluogi mynediad at gyfieithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n llawn i fod â meistrolaeth dda ar y Saesneg a'r iaith y maent yn cyfieithu ohoni.

Os bydd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn dod ar draws unigolion a gedwir yn y ddalfa nad ydynt yn gallu siarad Saesneg a'u bod yn dymuno gofyn cwestiynau iddynt am eu lles, dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa esbonio i swyddog y ddalfa eu bod yn dymuno defnyddio'r gwasanaethau cyfieithu.

Unwaith y bydd y cyfieithydd ar y pryd ar y lein, dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa esbonio eu rôl a'r cwestiynau y maent am eu gofyn i'r sawl sy'n cael eu cadw. Bydd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yna'n trosglwyddo'r ffôn yn ôl ac ymlaen rhyngddynt hwy a'r sawl sy'n cael eu cadw.

**13.12 Gwrthod mynediad i ddalfa neu unigolyn a gedwir yn y ddalfa**
Gall yr heddlu gyfyngu neu wadu mynediad Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa at unigolyn penodol a gedwir yn y ddalfa os yw swyddog o reng arolygydd neu uwch yn credu'n rhesymol bod angen hynny er mwyn diogelwch Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Gall swyddog o'r fath hefyd atal neu gyfyngu ar fynediad os yw'n credu'n rhesymol y gallai mynediad o'r fath ymyrryd â'r broses cyfiawnder.

Mewn achosion o'r fath dylid cofnodi'r wybodaeth hon yng nghofnod cadw'r sawl sy'n cael ei gadw yn y ddalfa (ynghyd â'r awdurdodiad perthnasol) a chan yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn eu ffurflen adrodd.

**13.13 Unigolion a gedwir yn y ddalfa sy'n cysgu**
Os yw unigolion a gedwir yn y ddalfa yn cysgu, dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa benderfynu a ddylid eu deffro er mwyn cadarnhau a ydynt yn dymuno cael ymweliad ai peidio. Fodd bynnag, dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gadw mewn cof y ddarpariaeth o dan God C PACE bod yn rhaid caniatáu cyfnod parhaus o wyth awr o seibiant i berson sy'n cael ei gadw dan ymchwiliad.

Mewn amgylchiadau o'r fath, neu lle gallai'r sawl a gedwir yn y ddalfa droi'n dreisgar, bydd y swyddog tywys yn cynghori na ddylid tarfu ar y sawl sy'n cael ei gadw ond y gellir ei arsylwi drwy'r agoriad cell.

Os yw Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn ystyried bod angen deffro'r sawl sy'n cael ei gadw, cyfrifoldeb y swyddog tywys yw gwneud hyn.

**13.14 Ymweld â phlant yn y ddalfa**
Gellir ymweld â phlentyn yn y ddalfa gyda'i ganiatâd ef neu hi. Nid oes angen cael caniatâd ychwanegol rhiant neu warcheidwad, er yn ddelfrydol byddai hyn yn well.

Os yw oedolyn priodol yn bresennol i gefnogi plentyn yn y ddalfa neu berson bregus, dylid ceisio dymuniadau'r sawl sy'n cael eu cadw a'u parchu ynghylch a ddylai'r oedolyn priodol fod yn bresennol yn ystod yr ymweliad.

Ni ddylai plant yn y ddalfa gael eu rhoi mewn celloedd oni bai nad oes llety diogel arall ar gael a bod swyddog y ddalfa o'r farn nad yw'n ymarferol eu goruchwylio y tu allan i gell. Os cedwir plentyn mewn cell, dylai Ymwelwyr

Annibynnol â'r Ddalfa ofyn am eglurhad gan swyddog y ddalfa a gwirio bod hyn wedi'i gofnodi ar gofnod y ddalfa.

**13.15 Unigolion sy'n cael eu cadw o dan adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983**

Argymhellir bod unigolion a gedwir yn y ddalfa dan y Ddeddf Iechyd Meddwl pan fydd ymweliad dalfa yn digwydd, eu bod hwythau hefyd yn cael eu hystyried ar gyfer ymweliad, os yw'n briodol, er na gwmpesir eu hawliau o dan PACE.

Caniateir i berson yr ymddengys ei fod yn dioddef o anhwylder meddwl a bod angen gofal neu reolaeth arno ar unwaith gael ei gadw a'i gludo i fan diogel o dan adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae newidiadau i Ddeddf Plismona a Throseddu 2017 yn datgan na ddylid defnyddio dalfa fel man diogel oni bai bod amgylchiadau eithriadol megis risg difrifol o anaf neu farwolaeth i'r person neu i eraill, neu na all unrhyw fan diogel yn ardal yr heddlu dderbyn y sawl sy'n cael ei gadw oherwydd y bygythiad uchod.

Yn yr achosion prin pan ddefnyddir y ddalfa yn fan diogel, mae personau a gedwir dan y Ddeddf Iechyd Meddwl i gael eu hasesu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol bob 30 munud. Ni ddylid mynd ag unrhyw blant i orsaf heddlu fel man diogel o dan Adran 136.

Dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa archwilio pam yr ystyriwyd bod dalfa yn fan diogel priodol ac a ddihysbyddwyd opsiynau eraill cyn i'r sawl sy'n cael ei gadw gael ei awdurdodi i'w gadw.

**13.16 Pobl sy'n cael eu cadw o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000**

Ni ellir mynd â phobl sy'n cael eu cadw dan y Ddeddf Terfysgaeth i unrhyw un o ddalfeydd Dyfed-Powys. Rhaid mynd â nhw i gyfleusterau cadw sydd wedi'u haddasu'n benodol ar gyfer unigolion o'r fath, ac nid oes cyfleusterau o'r fath yn Nyfed-Powys ar hyn o bryd.

Dim ond Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa sy'n cael eu fetio i lefel uwch ac sydd wedi'u hyfforddi i ymweld â'r rhai sy'n cael eu cadw o dan ddeddfwriaeth terfysgaeth all ymweld â unigolion o'r fath. Rhaid iddynt hefyd fod yn Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa o'r ardal lle mae'r cyfleuster cadw wedi'i leoli. Felly, nid oes angen i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn ardal Dyfed-Powys gael eu hyfforddi na'u fetio i'r lefel uwch.

**13.17 Oedolion priodol**

Ni ddylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wirfoddoli i weithredu fel "oedolyn priodol" mewn achosion o blant neu unrhyw gategori arall o unigolyn a gedwir yn y ddalfa tra'n aelod o'r cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd.

Ni fydd ceisiadau newydd gan ymgeiswyr â diddordeb bod yn ymwelwyr dalfeydd yn cael eu derbyn os ydynt ar hyn o bryd yn oedolyn priodol yn yr un ardal. Mae hyn oherwydd gwrthdaro buddiannau yn y ddwy rôl, gan y gall ymwelwyr â dalfeydd, ar brydiau, gael achos i roi adborth beirniadol ynglŷn â darparu gwasanaethau oedolion priodol yn yr ardal y maent yn ymweld â hi. Felly, mae elfen annibyniaeth rôl yr ymwelydd dalfeydd yn atal un person rhag cyflawni rolau Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa ac oedolyn priodol mewn dalfa.

Eithriadau
Gall Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa weithredu fel oedolyn priodol os:

- mewn perthynas â phlentyn, ef neu hi yw'r rhiant neu'r gwarcheidwad; neu
- mewn perthynas ag oedolyn bregus, mae ef neu hi'n berthynas, yn warcheidwad neu'n berson arall sy'n gyfrifol am ei ofal neu ei warchod.

### 13.18 Carcharorion remánd ac wedi'u dedfrydu

Cedwir y carcharorion hyn dan Orchymyn Gwasanaeth Carchar 1801 (Gorchymyn 1801) ac mae angen lefel uwch o gyfrinachedd arnynt gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Gall carcharorion ar remand ac wedi'u dedfrydu a gedwir mewn gorsafoedd heddlu geisio cwyno am amodau mewn carchardai neu'r driniaeth a gawsant yno. Ni ddylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ymwneud â materion o'r fath. Mae gweithdrefnau cwyno cydnabyddedig ar gael i garcharorion megis gwneud cais neu ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref neu ysgrifennu at eu cyfreithiwr neu Aelod Seneddol.

Mae gan gontractwyr y gwasanaeth hebrwng llys eu gweithdrefnau eu hunain hefyd ar gyfer cofnodi cwynion am eu staff. Bydd unrhyw gŵyn sy'n honni trosedd yn cael ei hadrodd i'r heddlu a Gwasanaeth Monitro Carchardai Ei Fawrhydi ar unwaith. Bydd unrhyw gŵyn a wneir i'r contractwr sy'n gyfystyr â chwyn gan yr heddlu yn cael ei chyfeirio at yr heddlu i'w hymchwilio.

### 13.19 Mynediad i gofnod dalfa unigolyn a gedwir yn y ddalfa

Argymhellir y dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ofyn am fynediad i gofnod dalfa'r sawl sy'n cael ei gadw os oes ganddynt unrhyw bryderon ynghylch llesiant y sawl sy'n cael ei gadw a/neu bryderon ynghylch a yw hawliau a hawliadau'r sawl sy'n cael ei gadw wedi'u cynnal. Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa hefyd yn gymwys i ofyn am adroddiad yr Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa sydd ar gael ar NICHE.

Gall Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gael mynediad i gofnod y sawl sy'n cael ei gadw os oes ganddynt bryderon fel y nodir uchod, ac os yw'r naill neu'r llall o'r amodau canlynol wedi'u bodloni:

1) Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn cael caniatâd llafar gan y sawl sy'n cael ei gadw, y mae'n rhaid ei ddogfennu ar ffurflen adroddiad yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a chofnod cadw'r sawl sy'n cael ei gadw; neu

2) Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa o'r farn nad yw'r sawl sy'n cael ei gadw yn gallu penderfynu p'un ai cydsynio ai peidio. Crebwyll yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa sy'n pennu a yw'r sawl sy'n cael ei gadw yn analluog i gydsynio, a dylid cofnodi'r rhesymeg ar ffurflen adroddiad yr ymweliad a chofnod dalfa'r sawl sy'n cael ei gadw. Mae Safonau Cenedlaethol Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn darparu canllawiau ar hyn i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, sy'n datgan:

> *"Mae ystyr arferol y gair [analluog] yn berthnasol – mae analluog yn ymwneud â gallu'r person i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a yw am ganiatáu i'w gofnod dalfa gael ei archwilio gan yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ar yr adeg y gofynnir iddynt am eu caniatâd. Bydd hyn yn sicrhau y gall llesiant unigolion sy'n perthyn i'r categorïau canlynol gael ei fonitro gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa; y rhai sy'n feddw neu o dan ddylanwad cyffuriau, y rhai nad ydynt yn siarad unrhyw Saesneg, a'r rhai sy'n dangos pryderon iechyd meddwl."*

Wrth wirio cynnwys cofnod dalfa'r sawl sy'n cael ei gadw, efallai y bydd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa am wirio'r canlynol:

- a yw hawliau o dan PACE wedi'u rhoi ac a lofnodwyd i gadarnhau hyn;
- bod meddyginiaeth, anafiadau, archwiliadau meddygol a phrydau/diet yn cael eu cofnodi;
- bod gweithdrefnau i asesu risgiau arbennig/bregusrwydd y sawl sy'n cael ei gadw wedi'u cofnodi'n gywir;
- amseriad ac amlder archwiliadau celloedd unigolion a gedwir yn y ddalfa sydd wedi meddwi neu sydd fel arall yn fregus; ac
- amseriad adolygiadau o'r angen parhaus am gadw yn y ddalfa.

Gall Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wirio cynnwys cofnod y ddalfa yn erbyn yr hyn a ddywedwyd wrthynt gan y sawl a gedwir yn y ddalfa.

Dylid gwneud y cais i weld cofnod dalfa'r sawl sy'n cael ei gadw yn y ddalfa i ringyll y ddalfa a fydd yn rhoi cofnod y ddalfa i'r Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd rhingyll y ddalfa yn argraffu'r ddogfen, er y gall rhai ganiatáu i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ei weld ar sgrin eu cyfrifiadur. Dylid dychwelyd unrhyw waith papur i ringyll y ddalfa yn syth ar ôl ei ddefnyddio.

Dim ond swyddog o reng arolygydd neu uwch all wrthod mynediad i gofnod dalfa. Os bydd hyn yn digwydd, rhaid i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gofnodi hyn ar y ffurflen adrodd, ynghyd â'r rhesymau a roddwyd.

Rhaid trin yr wybodaeth hon yn gyfrinachol ac mae'n rhaid i bob Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa lofnodi datganiad cyfrinachedd ar gyfer pob ymweliad.

Pe bai unigolyn a gedwir yn y ddalfa y bernir ei fod yn analluog yn ddiweddarach yn teimlo'n ddig bod y penderfyniad i gael mynediad i'w gofnod dalfa wedi'i wneud gan yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, gall adrodd yr anfodlonrwydd hwn i swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Ymdrinnir â chwynion yn unol â gweithdrefnau cwyno'r CHTh.

**13.20 Unigolion yn y ddalfa sy'n cael eu cyfweld**

Os yw person yn cael ei gyfweld ni ellir torri ar draws y cyfweliad. Os yw'r Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn dymuno gweld y person yn ddiweddarach yn yr ymweliad ar ôl i'r cyfweliad ddod i ben, gallant wneud hynny ac, os oes angen, gallant aros yn y ddalfa/ystafell aros at y diben hwn.

**13.21 Sgyrsiau rhwng unigolion a gedwir yn y ddalfa ac Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa**

Lle bo hynny'n ymarferol, dylai'r swyddog tywys symud allan o glyw, ond aros yng ngolwg yr ymwelwyr, cymaint ag sy'n ymarferol bosibl. Lle nad yw hyn yn bosibl, ni ddylai'r swyddog tywys wrando na chymryd rhan mewn unrhyw ran o'r ymweliad.

Os bydd swyddogion am ryw reswm yn penderfynu y dylai'r swyddog tywys aros o fewn clyw, rhaid i'r swyddog ar ddyletswydd neu uwch swyddog arall yng ngorsaf yr heddlu wneud y penderfyniad hwn. Dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gadw mewn cof, fodd bynnag, y gall rhai pobl sy'n cael eu cadw fod yn dreisgar neu dan ddylanwad alcohol, cyffuriau neu sylweddau eraill ac y gallai presenoldeb y swyddog tywys atal neu rwystro ymosodiadau ar yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Rhaid i drafodaethau ganolbwyntio ar wirio a yw hawliau statudol unigolion a gedwir yn y ddalfa wedi cael eu hesbonio ai peidio a'u bod wedi cael hysbysiad ysgrifenedig o'r hawliau hynny. Dylent hefyd fod yn fodlon bod unigolion a gedwir yn y ddalfa wedi cael y cyfleusterau hynny y mae ganddynt hawl iddynt o dan God C codau ymarfer PACE.

Gweler Atodiad B am ragor o wybodaeth am hawliau unigolion a gedwir yn y ddalfa o dan PACE. Darperir canllawiau hefyd ar gefn ffurflenni adrodd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, er gwybodaeth yn ystod ymweliadau.

Dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wylio rhag trosglwyddo/ailadrodd gwybodaeth yn ddiarwybod o un unigolyn a gedwir yn y ddalfa i'r llall. Nid yw trafodaethau rhwng Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ag unigolion a gedwir yn y ddalfa yn freintiedig ac mae gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gyfrifoldeb dinesig i adrodd/datgelu unrhyw wybodaeth a roddir. Cyfrifoldeb yr

Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yw gwneud unigolion a gedwir yn y ddalfa yn ymwybodol y bydd unrhyw ddatgeliad a wnânt yn ystod eu sgyrsiau yn cael ei adrodd i swyddog y ddalfa.

Rhaid i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa aros yn ddiduedd ac ni ddylent geisio cynnwys eu hunain mewn unrhyw ffordd yn y broses ymchwilio. Os yw unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn ceisio gwneud cyfaddefiadau neu drafod troseddwr honedig fel arall, rhaid i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ddweud wrtho y gall cynnwys perthnasol yr ymweliad gael ei ddatgelu mewn achos cyfreithiol.

Os bydd y sawl sy'n cael ei gadw yn nodi y gall niweidio'i hunain neu unrhyw berson arall, rhaid dwyn hyn i sylw staff y ddalfa ar unwaith.

### 13.22 Cyflyrau meddygol

Bydd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn dymuno rhoi sylw arbennig i bobl sy'n cael eu cadw sy'n dioddef o unrhyw fath o salwch, anaf, anabledd corfforol neu ddysgu neu gyflwr iechyd meddwl. Dylent fod yn sicr, os yw'n briodol, bod archwiliwr meddygol wedi'i alw a chadarnhau gyda swyddog y ddalfa pa gyfarwyddiadau ar gyfer triniaeth feddygol a roddwyd. Dylid cadarnhau hyn trwy edrych ar y cofnod cadw, os yw'r caniatâd angenrheidiol wedi'i roi. (Gweler adran 13.19).

Gall Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ymweld ag unigolion a gedwir yn y ddalfa (ond nid pobl sydd wedi eu rhyddhau o'r ddalfa) yn yr ysbyty, p'un ai dan warchodaeth yr heddlu ai peidio, yn amodol ar gytundeb swyddog y ddalfa ac awdurdodau'r ysbyty. Er mwyn atal siwrne ofer, efallai y byddai'n ddoeth holi'r ysbyty a yw'r sawl sy'n cael ei gadw yn fodlon siarad ag Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Os yw unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn yr ysbyty dan warchodaeth yr heddlu, bydd y swyddog heddlu yn aros gyda'r sawl sy'n cael ei gadw bob amser. Dim ond os yw'r sawl sy'n cael ei gadw wedi cydsynio yn y ffordd arferol y gellir caniatáu mynediad i'r cofnod dalfa.

Dylai rhingyll y ddalfa hysbysu Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa os yw unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi bod yn destun chwistrelliad analluogi (PAVA). Os yw Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn credu bod y person sy'n cael ei gadw yn dioddef oherwydd effeithiau chwistrell PAVA neu unrhyw ddefnydd arall o rym, dylent ddwyn hyn i sylw rhingyll y ddalfa sy'n gyfrifol am geisio cymorth meddygol.

### 13.23 Gwiriadau amgylcheddol

Mae Atodiad C yn rhoi rhestr o'r gwiriadau amgylcheddol y dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa eu hystyried.

### 13.24 Marwolaethau yn y ddalfa

Mae pob marwolaeth yn y ddalfa yn destun cwest crwner ac ymchwiliad gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu a bydd yr heddlu yn adrodd yn ffurfiol iddo. Os bydd marwolaeth yn digwydd yn nalfa'r heddlu, bydd prif arolygydd y ddalfa yn hysbysu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu cyn gynted â phosibl.

### 13.25 Cwynion gan unigolion a gedwir yn y ddalfa

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng cwynion gan unigolion a gedwir yn y ddalfa am eu triniaeth gyffredinol neu amodau cadw a chwyn o gamymddwyn gan swyddog heddlu. Gall y cyntaf gwmpasu cwynion megis nad oedd unigolion a gedwir yn y ddalfa wedi cael gwybod am eu hawliau statudol neu heb dderbyn hawliau dan y codau ymarfer PACE. Mae'n amlwg mai mater i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yw trafod cwynion o'r fath â swyddog y ddalfa neu uwch swyddogion yn yr orsaf ar adeg yr ymweliad.

Os yw'r sawl sy'n cael ei gadw yn dymuno gwneud cwyn am gamymddwyn a/neu ymosodiad gan swyddog heddlu, dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gynghori'r sawl sy'n cael ei gadw i ddod â'r mater i sylw'r arolygydd ar ddyletswydd. Er mwyn cynnal eu didueddrwydd llym, ni ddylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa fynd i'r afael ag achosion unigol na chyflwyno sylwadau ar ran unigolion a gedwir yn y ddalfa.

Dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa hefyd awgrymu y gallai'r sawl sy'n cael ei gadw ddymuno ystyried ceisio cyngor cyfreithiol cyn gwneud y gŵyn. Pan fo cwyn am ymosodiad corfforol wedi'i gwneud, dylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa awgrymu bod y sawl sy'n cael ei gadw yn gofyn am weld meddyg. (DS ar ôl derbyn cwyn ffurfiol, bydd yr arolygydd ar ddyletswydd yn trefnu i'r sawl sy'n cael ei gadw gael ei weld gan feddyg beth bynnag).

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn hysbysu'r Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa (trwy swyddfa'r CHTh) o ganlyniad unrhyw gŵyn o'r fath pan ofynnir iddynt wneud hynny gan y CHTh.

## 14. Didueddrwydd a chyfrinachedd

### 14.1 Cyngor i unigolion a gedwir yn y ddalfa

Rhaid i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa beidio ag ymwneud ag achosion unigol i'r graddau eu bod yn cynnig cyngor ynghylch a ddylai unigolion a gedwir yn y ddalfa wneud datganiad neu gydweithredu ag ymholiadau'r heddlu. Byddai cyngor o'r fath yn anghyson ag annibyniaeth yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa o'r prosesau ymchwilio.

### 14.2 Cyswllt â phobl y tu allan i orsaf yr heddlu

Ni ddylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gytuno i gysylltu ag unrhyw berson y tu allan i orsaf yr heddlu ar gais y sawl sy'n cael ei gadw yn y ddalfa. Ni ddylent ychwaith gytuno i drosglwyddo neges i unrhyw unigolyn arall a gedwir yn y ddalfa, na chynnig cyflawni tasgau eraill ar eu rhan. Os gofynnir iddynt wneud hynny, rhaid iddynt hysbysu swyddog y ddalfa ar unwaith.

### 14.3 Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn rhoi tystiolaeth mewn achosion troseddol

Nid yw sgyrsiau rhwng Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ac unigolion a gedwir yn y ddalfa yn freintiedig a byddai modd i lys gyhoeddi gwŷs tyst yn ei gwneud yn ofynnol i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa fod yn bresennol i roi tystiolaeth lafar neu i gyflwyno dogfennau megis adroddiad ar ymweliad penodol. Nid oes unrhyw rwymedigaeth ar Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa i roi tystiolaeth neu i gyflwyno dogfennau ac eithrio mewn ymateb i orchymyn llys.

### 14.4 Cyfrinachedd

Bydd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn cael gwybodaeth bersonol sylweddol am bobl yn nalfa'r heddlu. Ni fydd y mwyafrif wedi ymddangos gerbron llys eto ac ni fydd llawer ohonynt byth yn gwneud hynny. Rhaid diogelu gwybodaeth bersonol am unigolion yn y ddalfa rhag datgeliad amhriodol neu ddiangen. Felly, gofynnir i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa lofnodi ymrwymiad (sydd wedi'i gynnwys ar y ffurflen adrodd ar ymweliad) i beidio â rhyddhau hunaniaeth, neu wybodaeth sy'n gallu adnabod unrhyw berson yn nalfa'r heddlu (ac eithrio lle mae ymweliad wedi'i drefnu'n eithriadol mewn cysylltiad â thriniaeth person penodol).

Mae'n ddymunol, er budd cymhwyso egwyddorion cyfrinachedd yn llym, nad yw Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn enwi nac yn nodi fel arall unigolion yn y ddalfa hyd yn oed mewn adroddiadau, neu mewn trafodaeth â chyd-Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa neu swyddfa'r CHTh.

Rhoddir enwau, cyfeiriadau a rhifau ffôn Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa i ymwelwyr eraill yn gwbl gyfrinachol. Fe'u rhoddir er hwylustod yn unig wrth wneud cyswllt personol i drefnu ymweliadau ac ati. Ni ddylid datgelu manylion o'r fath i unrhyw berson arall. Mae'r amod hwn yr un mor berthnasol i staff yr heddlu.

### 14.5 Torri cyfrinachedd

Gall torri'r ymrwymiad hwn olygu bod Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa yn agored i achos sifil gan y person dan sylw. Mae angen i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa fod yn ymwybodol y gallai datgelu ffeithiau ynghylch gweithrediadau'r heddlu neu ddiogelwch gorsafoedd heddlu heb awdurdod fod yn drosedd o dan Adran 5 o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.

## 15. Ffurflenni adrodd ymwelwyr a chamau gweithredu dilynol

### 15.1 Cwblhau ffurflenni adrodd

Bydd nodiadau'r ymweliad yn cael eu cymryd gan y ddau Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa yn y ffurflenni Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a ddarperir. Ar ddiwedd yr ymweliad, rhaid i'r ddau Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa lofnodi'r ffurflen.

Dylid anfon copi uchaf y ffurflen adrodd (gwyn) i swyddfa'r CHTh gan ddefnyddio'r amlen ragdaledig a ddarparwyd. Dylid gadael yr ail gopi (melyn) yn yr orsaf a gellir ei archwilio ar ymweliadau dilynol. Ni ddylai Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gadw copi o'r adroddiad.

Yn dilyn yr ymweliad, disgwylir i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gwblhau ffurflen electronig (e-ffurflen) ar-lein sy'n rhoi cyfle i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ymhelaethu ar eu nodiadau a gymerwyd o'r tu mewn i'r ddalfa ac sy'n caniatáu i SCHTh fonitro cynnydd trwy'r data y mae'n ei darparu.

Pan fydd ymwelwyr yn methu â chytuno ar sylwadau, bydd swyddfa'r CHTh yn anfon y manylion ymlaen at y prif arolygydd a'r arolygydd sy'n gyfrifol am y ddalfa honno, i gael sylwadau a chamau gweithredu lle bo angen.

### 15.2 Adroddiadau ar driniaeth ac amodau anfoddhaol

Os bydd ymweliad yn datgelu unrhyw agwedd ar driniaeth unigolion a gedwir yn y ddalfa neu amodau yn yr orsaf sy'n anfoddhaol, dylid eu cynnwys ar y ffurflen adrodd a'u codi gyda swyddog y ddalfa ar y pryd. Dylai unrhyw gamau a gymerir gan swyddog y ddalfa gael eu cofnodi hefyd ar y ffurflen adrodd.

### 15.3 Adroddiadau ar faterion yn codi o ymweliadau

Bydd materion sy'n codi o ymweliadau hefyd yn cael eu cyflwyno i'r arolygydd dalfa perthnasol, a gofynnir iddo roi diweddariad / ymateb i'r sylwadau ac unrhyw gamau gweithredu dilynol. Lle bo angen, bydd y materion hefyd yn cael eu dwyn i sylw prif arolygydd y ddalfa.

## 16. Monitro'r cynllun

Er mwyn cyflawni amcanion y cynllun, cyflwynir adroddiadau ar dueddiadau sy'n deillio o ymweliadau a gynhaliwyd i'r CHTh, sy'n monitro pob agwedd ar y cynllun ar draws Dyfed-Powys.

## 17. Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd

Mae SCHTh ar gyfer Dyfed-Powys yn aelod o'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Mae Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn sefydliad a ariennir gan y Swyddfa Gartref a sefydlwyd i hyrwyddo a chefnogi darpariaeth

effeithiol o ymweliadau â dalfeydd yn genedlaethol. Mae Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn gweithio'n agos gyda'r llywodraeth a sefydliadau cyfiawnder troseddol i:

- godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o hawliau, hawliadau, iechyd a llesiant pobl a gedwir yn nalfa'r heddlu;
- cynghori ar arferion gorau ar gyfer cynlluniau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn genedlaethol; a
- darparu hyfforddiant, cyhoeddusrwydd a chefnogaeth i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd http://icva.org.uk/

## Atodiad A

| Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa – manyleb rôl | |
|---|---|
| **Bydd y meini prawf yn y fanyleb rôl hon yn sail ar gyfer llunio rhestr fer o ymgeiswyr addas i ddod yn Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Y meini prawf hyn yw'r gofynion angenrheidiol i alluogi perfformiad effeithiol o fewn y rôl.** | |
| **Maen prawf** | **Cymwyseddau** |
| Cymhwysedd | • Rhaid bod yn 18 oed neu'n hŷn;<br>• Rhaid byw, gweithio neu astudio yn ardal Dyfed-Powys;<br>• Rhaid bod wedi byw yn y DU am o leiaf tair blynedd cyn gwneud cais;<br>• Rhaid bod yn barod i fynychu cyfarfodydd Panel Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ddwywaith y flwyddyn;<br>• Rhaid bod yn fodlon cynnal ymweliadau rheolaidd â dalfeydd, fel y nodir yn y rota berthnasol;<br>• Rhaid bod yn barod i fynychu sesiynau hyfforddi blynyddol;<br>• Rhaid iddo beidio â bod yn aelod mewn swydd o heddlu neu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a pheidio â bod â rhan sy'n gwrthdaro â'r system cyfiawnder troseddol;<br>• Meddu ar ddealltwriaeth o bwysigrwydd cydraddoldeb a thegwch i bawb; |

| | |
|---|---|
| | • Gallu cyfathrebu â gwahanol bobl ar lafar ac yn ysgrifenedig;<br>• Rhaid bod yn annibynnol ac yn ddiduedd;<br>• Rhaid gallu adrodd ar ganfyddiadau mewn modd adeiladol;<br>• Rhaid gallu cynnal cyfrinachedd;<br>• Rhaid bod yn barod i gael ei fetio a darparu tystlythyrau. |
| Gweithio gyda phobl | • Rhaid gallu dangos y gallu i weithio fel rhan o dîm;<br>• Y gallu i sefydlu a chynnal perthnasoedd gwaith da ag ystod eang o bobl. |
| Sgiliau cyfathrebu effeithiol | • Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig;<br>• Rhaid gallu dangos y gallu i reoli ymrwymiadau a gwneud cyfraniad dibynadwy i'r cynllun. |
| Cymhelliad | • Y gallu i ddangos brwdfrydedd dros y rôl. |
| Parch i bobl | • Y gallu i drin pawb yn deg a chyda pharch, i werthfawrogi amrywiaeth ac ymateb yn sensitif i wahaniaethau;<br>• Dangos y gallu i fod yn agored i syniadau a dulliau newydd o weithio. |

## Atodiad B

| **Mae hawliau unigolion a gedwir yn y ddalfa o dan God C, Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, wedi'u crynhoi isod. Dyma'r wybodaeth a ddarperir i unigolion a gedwir yn y ddalfa yng ngorsaf yr heddlu. Mae manylion llawn ar gael yng Nghod Ymarfer C yr heddlu.** |
|---|
| **1**. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych am gael cyfreithiwr i'ch helpu yn ystod eich amser yng ngorsaf yr heddlu. Mae hyn yn rhad ac am ddim. |
| **2**. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych am i rywun gael gwybod ble rydych chi. Mae hyn yn rhad ac am ddim. |
| **3**. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych chi am edrych ar eu rheolau – Codau Ymarfer yw'r enw ar y rhain. |
| **4**. Dywedwch wrth yr heddlu os oes angen cymorth meddygol arnoch chi. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych chi'n teimlo'n sâl neu rydych wedi'ch anafu. Mae cymorth meddygol yn rhad ac am ddim. |
| **5**. Os gofynnir cwestiynau i chi am drosedd a amheuir, nid oes rhaid i chi ddweud dim. Fodd bynnag, fe allai niweidio eich amddiffyniad os na fyddwch yn sôn wrth gael eich holi, am rywbeth y byddwch yn dibynnu arno'n ddiweddarach yn y llys. Gall unrhyw beth a ddywedwch gael ei gyflwyno fel tystiolaeth. |
| **6**. Rhaid i'r heddlu ddweud wrthych am y drosedd y maent yn meddwl eich bod wedi'i chyflawni a pham eich bod wedi cael eich arestio ac yn cael eich cadw'n gaeth. |

| |
|---|
| **7**. Mae’n rhaid i’r heddlu adael i chi neu’ch cyfreithiwr weld cofnodion a dogfennaeth ynglŷn â pham rydych wedi cael eich arestio ac yn cael eich cadw’n gaeth ac am eich amser yng ngorsaf yr heddlu. |
| **8**. Os oes angen cyfieithydd arnoch, rhaid i’r heddlu ddod o hyd i un i chi. Gallwch hefyd gael rhai dogfennau penodol wedi’u cyfieithu. Mae hyn yn rhad ac am ddim. |
| **9**. Dywedwch wrth yr heddlu os nad ydych yn Brydeiniwr a’ch bod am gysylltu â’ch llysgenhadaeth neu gonswl neu rydych am iddynt gael gwybod eich bod yn cael eich cadw’n gaeth. Mae hyn yn rhad ac am ddim. |
| **10**. Rhaid i’r heddlu ddweud wrthych am ba mor hir y gallant eich cadw’n gaeth. |
| **11**. Os cewch eich cyhuddo a bod eich achos yn mynd i’r llys, bydd gennych chi neu’ch cyfreithiwr hawl i weld tystiolaeth yr erlyniad cyn y gwrandawiad llys. |

Atodiad C

| **Ystyriwch y gwiriadau amgylchedd ffisegol canlynol ar safon y ddalfa. Gwiriwch y canlynol:** |
|---|
| - Mae’r celloedd yn lân (celloedd wedi’u meddiannu a chelloedd gwag lle bo modd). |
| - Mae’r gegin a’r man paratoi bwyd yn lân ac yn daclus. |
| - Mae pob man arall o fewn y ddalfa yn lân ac yn daclus. |
| - Mae’r system wresogi, y golau a’r awyru’n ddigonol. |
| - Mae’r ystafell feddygol wedi’i chloi os nad oes gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn bresennol. |
| - Mae pecyn cymorth cyntaf ar gael yn rhwydd. |
| - Mae cyflenwad digonol o ddillad gwely, siwtiau gwrth-rwygo a dillad sbâr. |
| - Mae stociau digonol o fwyd. |
| - Mae’r ddalfa yn glir o unrhyw beryglon iechyd a diogelwch gweladwy. |
| - Mae’r seiniwyr celloedd a’r systemau teledu cylch cyfyng yn gweithio’n iawn. |
| - Mae deunyddiau crefyddol ar gael yn rhwydd i unigolion a gedwir yn y ddalfa. |
| - Nid oes unrhyw bwyntiau clymu sy’n peri risg i unigolion a gedwir yn y ddalfa. |

## Atodiad D

## Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd

## Cod Ymddygiad

Mae’r Cod Ymddygiad hwn yn nodi’r safonau a argymhellir ar gyfer holl aelodau’r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd.

Mae’n ofynnol i holl Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa y Comisiynydd, wrth dderbyn penodiad, ddatgan y byddant yn cael eu harwain gan y cod hwn.

Mae’r cod yn cynrychioli’r safon a ddisgwylir gan bob Ymwelydd Annibynnol â’r Ddalfa a dyma’r sail ar gyfer eu haelodaeth barhaus o’r cynllun.

### 1. Camymddwyn

Mewn achos o gamymddwyn, bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn ystyried a yw’n briodol terfynu penodiad yr Ymwelydd Annibynnol â’r Ddalfa hwnnw. Bydd camymddwyn yn cynnwys materion fel:-

- Camddefnyddio cardiau adnabod
- Euogfarn o drosedd
- Datgelu gwybodaeth gyfrinachol
- Diffyg cydymffurfio â’r canllawiau ymweld

### 2. Safonau gofynnol

Er mwyn i ymweliadau annibynnol â dalfeydd fod yn effeithiol mae’n hanfodol bod ymwelwyr â dalfeydd a staff yr heddlu yn datblygu ac yn cynnal perthnasoedd gwaith proffesiynol yn seiliedig ar barch a dealltwriaeth o rolau cyfreithlon ei gilydd. Yn wyneb hyn mae’n bwysig nad yw Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa yn creu anawsterau drwy:-

- Fethu â gwerthfawrogi blaenoriaethau’r heddlu
- Cymryd rhan mewn mân feirniadaeth ormodol
- Mabwysiadu agwedd orwrthwynebol
- Canolbwyntio ar ddod o hyd i fai a cheisio maglu’r heddlu
- Dod yn rhan o ymchwiliad neu roi cyngor i’r sawl a gedwir yn y ddalfa ar yr ymchwiliad hwnnw
- Beirniadu camau gweithredu gan yr heddlu neu gwestiynu eu barn mewn meysydd y tu allan i gylch gwaith yr ymwelwyr
- Cymryd rhan mewn sefyllfaoedd o wrthdaro rhyngbersonol gyda staff yr heddlu
- Dweud wrth yr heddlu beth ddylen nhw ei wneud
- Gwneud addewidion i unigolyn a gedwir yn y ddalfa ar ran yr heddlu

Rhaid ystyried y materion hyn gan gofio bod angen sicrhau’r cydbwysedd cywir rhwng sefydlu trefniadau gweithio effeithiol a datblygu perthynas sy’n rhy agos a

chysurus.  Bydd hyn yn peryglu annibyniaeth Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa o ran darparu arsylwadau ac adroddiadau gwrthrychol ac adeiladol.

Disgwylir i bob ymwelydd â dalfeydd hefyd ymatal rhag defnyddio iaith wahaniaethol (e.e. iaith rhywiaethol, hiliol neu homoffobaidd) a rhag arddangos unrhyw fath o ymddygiad gwahaniaethol yn eu rôl ymweld â dalfeydd. Cynhelir ymweliadau annibynnol â dalfeydd gyda'r angen am ddidueddrwydd o ran unrhyw unigolion a gedwir yn y ddalfa yr ymwelir â nhw. Mae hyn ynghyd â'r angen i weithio'n gadarnhaol gydag ymwelwyr eraill a staff yn golygu nad yw agweddau rhagfarnllyd a gwahaniaethol yn dderbyniol o fewn y cynllun.

## 3. Methiant i gynnal ymweliadau

Pan fydd ymwelydd yn methu ag ymweld o fewn cyfnod o dri mis bydd SCHTh yn ysgrifennu at y person dan sylw i ddarganfod ai amryfusedd yn unig yw hyn neu i ofyn am esboniad.

Os nad yw unigolyn wedi ymweld o fewn cyfnod o chwe mis ac nid roddwyd rheswm da i SCHTh dros hyn, ystyrir a ddylid terfynu penodiad y person hwnnw.

## 4. Cwynion yn erbyn yr heddlu

Os yw Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa yn gwneud cwyn yn erbyn yr heddlu sy'n cael ei chofnodi, boed yn y rôl fel Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa neu fel unigolyn preifat, rhaid hysbysu SCHTh.  Bydd y manylion llawn yna'n cael eu rhoi gerbron cadeirydd y panel a fydd yn penderfynu mewn ymgynghoriad â SCHTh a ddylid atal neu gwtogi dyletswyddau'r Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa er budd didueddrwydd.

## 5. Perthnasoedd gwaith ag Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa eraill

Yn ogystal â chynnal perthynas waith broffesiynol â staff yr heddlu, rhaid i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa hefyd roi'r un parch i'w cyd-ymwelwyr. Felly mae'n rhaid i bob Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa gydymffurfio â'r canlynol:-

- Bod yn gefnogol a pharchu ei gilydd
- Gweithio fel tîm
- Chwarae rhan weithredol a chyfartal yn ystod yr ymweliadau
- Ceisio osgoi dominyddu'r bartneriaeth yn ystod yr ymweliadau

## 6. Torri'r Cod Ymddygiad

Gan fod y Cod Ymddygiad hwn yn cynrychioli'r safon a ddisgwylir gan bob Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa, a'i fod yn sail i'w aelodaeth barhaus o'r cynllun, gellir terfynu, atal neu gwtogi ar benodiad Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa y canfyddir ei fod yn torri'r cod.

Os bydd cwyn neu honiad yn cael ei wneud bod Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wedi torri unrhyw ran o'r Cod Ymddygiad hwn, bydd y camau canlynol yn cael eu cymryd.

Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn gofyn i'r gŵyn/honiad gael ei wneud yn ysgrifenedig, os nad yw hynny wedi'i wneud eisoes.  Ni chymerir unrhyw gamau pellach oni bai fod y gŵyn/honiad yn cael ei wneud yn ysgrifenedig.

Bydd y SCHTh, ar ôl derbyn y gŵyn/honiad ysgrifenedig, yn hysbysu'r Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa ei fod wedi dod i law ac o'i gynnwys.

Bydd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn cael cyfle i ymateb i'r gŵyn/honiad naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Bydd SCHTh yn gwneud yr ymholiadau perthnasol angenrheidiol i benderfynu ar sylwedd y gŵyn/honiad. Wrth wneud hynny, ac yn dibynnu ar natur y gŵyn, bydd SCHTh yn cysylltu ag unrhyw un neu bob un o'r partïon canlynol:

- Yr achwynydd
- Cyd-Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa
- Swyddog(ion) heddlu
- Unrhyw un arall sy'n gallu darparu gwybodaeth berthnasol

Ar ôl gwneud yr ymholiadau angenrheidiol, bydd SCHTh yn paratoi adroddiad, gydag argymhellion, a fydd yn cael eu hystyried/cadarnhau gan y Pennaeth Staff i SCHTh a chadeirydd y panel priodol.

**7. Datganiad**

Rwyf wedi darllen a deall cynnwys y cod ymddygiad hwn a chytunaf i gadw at y darpariaethau a gynhwysir ynddo.

Enw mewn priflythrennau: ……………………………………………

Llofnod: ……………………………………………

Dyddiad: ……………………………………………

## Atodiad E:

**Polisi Cosb**
**Ymweliadau â dalfeydd**

Gwirfoddolwyr yw Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa sy'n ymweld yn ddirybudd ag unigolion a gedwir yn nalfa'r heddlu i sicrhau bod hawliau, hawliadau a llesiant unigolion a gedwir yn y ddalfa yn cael eu bodloni gan yr heddlu. Mae gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys gyfrifoldeb i sicrhau bod unigolion a gedwir yn y ddalfa yn gallu siarad ag Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn agored a heb ofni cosb gan yr heddlu fel rhan o'i gyfrifoldeb o dan Brotocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (OPCAT). Mae OPCAT yn gytundeb hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i gynllunio i gryfhau amddiffyniad pobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid.

### Y broses

1. Os bydd unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn teimlo ei fod wedi dioddef cosb ar ôl siarad ag Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa, dylid codi hyn yn y broses gwyno a ddylai gael ei hysbysebu'n glir ym mhob dalfa ac ar wefannau perthnasol. https://www.dyfed-powys.police.uk/cy-GB/cysylltu-a-ni/af/cysylltu-a-ni-beta/cysylltu-a-ni/adborth-diolch-gwynion/

2. Pan fydd unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn rhoi gwybod i Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa am gosb, neu ofn cosb, bydd yr ymwelydd â dalfeydd yn cynnwys hyn yn ei adroddiad i reolwr y cynllun yn swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

3. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cytuno i uwchgyfeirio cwynion sy'n cyfeirio'n benodol at gosb yn sgil rhyngweithio ag ymwelydd annibynnol â dalfa i swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.


4. Os bu honiad o ddigwyddiad cosbi, bydd swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn ymchwilio iddo o dan eu proses ymdrin â chwynion.

5. Os bu honiad o ddigwyddiad cosbi, bydd swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn adrodd am y digwyddiad honedig i Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ynghyd â chanlyniad unrhyw ymchwiliadau.

6. Pe bai honiad o gosb yn cael ei brofi, bydd swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd i ymdrin â'r achos gyda Heddlu Dyfed-Powys a bod camau ar waith i sicrhau na fydd unrhyw gosbi yn y dyfodol.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch y polisi cosb, anfonwch e-bost at gydlynydd y cynllun yn: opcc@dyfed-powys.police.uk

## Atodiad F



Independent Custody Visiting and Holding The Police to Account.
Start by Choosing the Appropriate Level of Accountability
ICVA
The Independent Custody Visiting Association
1
During the ICVs visit by the ICV. When an ICV notices something of concern.
Can the issue be resolved during the visit?
Raise the issue with staff during the visit.
Record on the report form.
Check that the issue has been resolved.
Consider feeding back to the detainee.
THINK
Are you satisfied with the response?
YES
NO
ISSUE RESOLVED!
Record it and keep the details to demonstrate how ICVs have made a difference.
2
Scheme manager to raise the issue with police representative. Eg: In one-to-one meetings or panel meeting.
Scheme manager to read ICV reports in order to identify any issues.
Clarify what the issue is – is it a specific complaint or thematic? Read reports, gather relevant information.
Articulate what you are asking of the police. Be clear in what you are reporting and asking. Is your request SMART? What are you trying to achieve?
PAUSE
What is the best way to deal with the issue? Seek advice if you need to.
Formal approach OR an informal approach? Written and clear OR phone, conversation. You may wish to use both approaches.
Remind your contact that you are waiting for a response before your deadline/meeting.
THINK.
Are you satisfied with the response?
YES
NO
3
PCC or policing authority to raise formally with senior (ACC or above) police officers – serious, high profile or impact. Annual report, ongoing issues and thematic problems.
Clarify: What are the issues you want to raise with the force?
Articulate: What do you want from the police? What outcomes would you like to achieve?
Seek Support from your colleague – use local governance processes (e.g meetings, formal requests) to hold the police to account).
THINK
Are you satisfied with the response?
YES
NO
ISSUE RESOLVED!
Record it and keep the details to demonstrate how ICVs have made a difference.
4
ICVA – report any important or high impact problems, national problems or areas that ICVA has asked for feedback on.
Clarify: What is the issue? Why does ICVA need to know?
Articulate: What would you like to achieve?
Get in touch with ICVA.
ICVA will escalate the issue.
THINK
Are you satisfied with the response?
YES
NO
ISSUE ONGOING.
Cannot be resolved at present. Note and repeat work when appropriate.